

SYNIADAU AR

GYFER

CHWARAE



YN EICH

CYMDOGAETH

**EDRYCHWCH AR RAI O'N HAWGRYMIADAU AR
GYFER PETHAU I'W GWNEUD YN EICH ARDAL
CHI ER MWYN PARHAU I FOD YN GREADIGOL,
PARHAU I SYMUD A BOD YN LLAWN
DYCHYMYG YR HAF HWN.**

ALLWCH CHI DDEFNYDDIO EICH DYCHYMYG I WELD
GWRTHRYCHAU NEU ANIFEILIAID CYFFREDIN (NEU
FFANTASTIG) YN SIAPIAU'R CYMYLAU?
A ALL ERAILL DDYFALU BETH YDYN NHW?



ALLWCH CHI DDOD O
HYD I'R ADEILAD HYNAF YN EICH CYMDOGAETH?
BETH SY'N GWNEUD I CHI FEDDWL EI FOD O'N HEN?
ALLWCH CHI DDYFALU PA MOR HEN YDYW AC A ALL
EICH RHINIENI EICH HELPŪ I GANFOD A OEDDECH CHI'N
IAWN?



ALLWCH CHI YMWELD
â'CH 'MAN GWYRDD' AGOSAF? AI PARC, CAE NEU
GOEDWIG YDYW? PA FATH O GEMAU FYDDAI'N DDA
I'W CHWARAE YMA, ALLWCH CHI CHWARAE CUDDIO
NEU CHWARAE GÊM GYDA PHŪL?



BETH YW'R ADEILAD TALAF WRTH YMYL EICH
CARTREF CHI? HEB EDRYCH, ALLWCH CHI
DDYFALU FAINT O LORIAU SYDD GANDDO?
OS CEWCH CHI GANIATÂD, ALLWCH CHI FYND
I'W WELD A CHYFRIF FAINT O LORIAU SYDD
GANDDO?



HEB EDRYCH, ALLWCH CHI DYNNU LLUN O'R TU ALLAN
I'CH TŶ, NEU YSTAFELL YN EICH TŶ?
OS BYDD DAU OHONOCY YN GWNEUD HYN,
EDRYCHWCH
PWY ALL GAEL Y RHAN FWYAF O'R
MANYLION YN IAWN!



PRYD OEDD Y TRO DIWETHAF I CHI FYND I BARG
LLEOL SY'N CYNWYS FFRÂM DDRINGO / OFFER
CHWARAE? OS CEWCH CHI GANIATAD, ALLWCH
CHI WNEUD CYNLLUN I FYND I EDRYCH?



FAINT O GERFLUNIAU (FEL ARFER POBL SYDD WEDI'U
GWNEUD â CHONCRIT NEU FETEL) ALLWCH CHI FEDDWL
AMDANYNT YN EICH ARDAL LEOL, ALLWCH CHI YMWELD â
NHW A DYSGU PAM EU BOD NHW YNO, A'R STORI Y TU ÔL I
HYNNY? AR GYFER PWY FYDDECH CHI'N GWNEUD
CERFLUN? ALLWCH
CHI DYNNU LLUN O'R PERSON HWNNW, NEU EI LUNIO
ALLAN O GLAI NEU DOES CHWARAE?



Allwch chi feddwl
am bethau mwy diddorol yn
eich cymdogaeth y gallwch
ddefnyddio eich meddwl,
eich corff a'ch dychymyg i'w
harchwilio?